
BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU DYDD GWENER, 11 RHAGFYR 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian B.Roberts (Cyngor Sir y Fflint) a Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a'r Athro Iwan Davies (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Annwen Morgan (Cyngor Sir Ynys Môn), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Colin Everett (Cyngor Sir y Fflint), Judith Greenhalgh (Cyngor Sir Ddinbych), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dilwyn Williams (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol – Dafydd Edwards (Swyddog Cyllid Statudol – Awdurdod Lletya), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya), Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau), Jane Richardson (Cadeirydd Grŵp Swyddogion Gweithredol), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Dafydd Meurig (Cyngor Gwynedd) i'r cyfarfod i ddirprwyo ar ran y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd Uchelgais a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2020 fel rhai cywir.

5. DOGFENNAU ATODOL Y CYNLLUN TERFYNOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Hedd Vaughan-Evans (Rheolwr Gweithrediadau).

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r dogfennau atodol i'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd, sef y Gofrestr Risg, y Cynllun Monitro a Gwerthuso, y Strategaeth Gwireddu Buddion a'r Strategaeth Rheoli Newid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ymrwymedig i gyflawni Cytundeb Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth cyn diwedd mis Rhagfyr 2020.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi datblygu'r dogfennau sydd angen eu cyflwyno i'r ddwy Lywodraeth er mwyn cyrraedd Cytundeb Terfynol.

Mae angen i'r Swyddfa Rheoli Portffolio gael trefniadau rheoli effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau y gellir cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn diweddarau'r Bwrdd ar broses y Cynllun Twf Terfynol ac yn cyflwyno'r dogfennau atodol oedd eu hangen i gyrraedd Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nodwyd bod bwriad i barhau i ddatblygu a mireinio'r dogfennau hyn dros y 6-12 mis nesaf.

Manylwyd ar y cefndir ac ystyriaethau perthnasol a'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd.

Nododd y Cadeirydd fod yr holl bartneriaid bellach wedi cymeradwyo'r dogfennau allweddol oedd eu hangen ar gyfer cyrraedd Cytundeb Terfynol ar Gynllun Twf Gogledd Cymru gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Diolchodd i bawb am eu gwaith ardderchog gan nodi fod yr hyn roedd y 6 awdurdod, yn gweithio ar y cyd ar draws y Gogledd gyda'u partneriaid a'r prif weithredwyr, wedi llwyddo i'w gyflawni yn anhygoel.

Nodwyd ymhellach bod Bwrdd Gweithredu Cynlluniau Twf a Dinesig Cymru wedi cymeradwyo'r achos busnes portffolio. Roedd cyngor yn cael ei baratoi i'r gweinidogion a threfniadau ar y gweill ar gyfer cynnal seremoni arwyddo'r Cytundeb Terfynol yn rhithiol ar 17 Rhagfyr. Anogwyd pawb i roi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad hwn fel bod mwy o'n partneriaid a thrigolion Gogledd Cymru yn gallu ymuno yn y dathliad.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd:-

- Bod y fframwaith yn gadarn ac ansawdd yr adroddiadau yn wych, a llongyfarchwyd y Tîm ar eu holl waith.
- O ystyried y sefyllfa o ran Brexit, a'r risgiau o gwmpas newidiadau economaidd, ei bod yn dda gweld pwyslais ar fodelu rhesymeg a rhagdybiaethau, fel ei bod yn glir i ni petai'r amgylchedd yn newid, neu fod rhywbeth yn effeithio ar y prosiectau rydym yn gweithio arnynt. Roedd yn dda cael dogfennau mewn amser real i'n galluogi i ddadansoddi a yw'r buddion yn cael eu gwireddu, neu a oes angen i ni weithredu'n wahanol o ganlyniad i newidiadau posib' yn yr amgylchedd, megis Brexit.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 1.20 y.h.